CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

**Gwasanaeth Dysgu Môn**
**Anglesey Learning Service**

# Ysgol Cybi

# Amserau Sesiynau Ysgol

DRAFT

| | |
|---|---|
| Dyddiad wedi ei fabwysiadu gan y Corff Llywodraethu<br>*(bydd hefyd angen cofnodi hyn yng nghofnodion y cyfarfod lle cafodd ei dderbyn a'i fabwysiadu)* | 30/09/26 |
| Cadeirydd y Llywodraethwyr (llofnod) | Colin Bell |
| Pennaeth (llofnod) | Rh Grieves |
| Dyddiad adolygu<br>*(3 mlynedd o fabwysiadu, os nad yw wedi ei ddiweddaru gan yr ALl)* | 30/09/29 |

**Cyflwyniad**
Cymeradwywyd Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012 gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a daethant i rym ar 24 Chwefror 2012. Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") yn gymwys i ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ac i ysgolion arbennig (p'un a ydynt yn cael eu cynnal felly ai peidio).

**Nodau ac amcanion**

- Sicrhau bod y strwythur ar gyfer amserlen yr ysgol yn darparu'r fframwaith gorau posibl ar gyfer addysgu a dysgu.
- Sicrhau bod Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei bodloni a bod amserau ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012

**Sesiynau Ysgol**

- Bydd diwrnod ysgol fel arfer yn cael ei rannu'n ddwy sesiwn (gydag egwyl yn y canol), a bydd ysgolion (ac eithrio ysgolion meithrin) yn cyfarfod am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol (h.y. 190 diwrnod).
- Mae'n ofynnol i ysgolion fod yn agored i addysgu disgyblion am hyd at 190 diwrnod bob blwyddyn academaidd. Mae'n ofynnol i athrawon fod ar gael i weithio am 195 diwrnod fesul blwyddyn academaidd. Mae hyn yn cynnwys bod ar gael am bum diwrnod hyfforddiant mewn swydd (HMS).
- Mae pum diwrnod HMS statudol ar gael o fewn cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon.
- Mae gan Weinidogion Cymru'r awdurdod i ganiatáu un neu ddau ddiwrnod HMS ychwanegol.

**Hyd sesiynau ysgol**

Rhaid i sesiynau ganiatáu digon o amser gwersi i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cynnwys y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae ysgolion yn rhydd i benderfynu ar hyd pob gwers ond mae argymhellion cyfredol Llywodraeth Cymru yr wythnos fel a ganlyn:

| **Oed** | **Yr isafswm yr awgrymir o amser gwersi wythnosol (oriau)** |
|---|---|
| 5-7 (Cyfnod Sylfaen) | 21 |
| 8-11 (Cyfnod Allweddol 2) | 23.5 |
| 12-16 (Cyfnod Allweddol 3-4) | 25 |

Mae'r isafswm yr awgrymir o amser gwersi wythnosol yn ymwneud â'r oriau pan fydd disgyblion yn cael eu haddysgu. Mae'r oriau gwersi a argymhellir uchod yn cynnwys addysg grefyddol ond nid ydynt yn cynnwys y weithred o addoli ar y cyd, ac nid ydynt ychwaith yn cynnwys cofrestru neu seibiannau. Dylid caniatáu digon o amser mewn sesiynau ysgol ar gyfer yr holl weithgareddau hyn.

Ar gyfer ysgolion arbennig, gall yr amserau fod yn fwy hyblyg. Bydd angen iddynt neilltuo amser ar gyfer gweithgareddau sy'n benodol i ofynion eu disgyblion, megis hyfforddiant mewn symudedd, llofnodi neu ddefnyddio Braille ac ar gyfer unrhyw driniaethau meddygol sydd eu hangen. Mae angen iddynt hefyd ystyried faint o amser y mae disgyblion yn ei dreulio bob dydd yn teithio i'r ysgol ac oddi yno. Fodd bynnag, yn gyffredinol, dylai ysgolion arbennig ystyried y canllawiau uchod, fel rhai sy'n cynrychioli lefel o ddarpariaeth y dylent anelu ati lle y bo'n ymarferol a lle y mae er budd

DRAFT

addysgol y disgybl unigol. Wrth bennu oriau o wersi a addysgir, dylai ysgolion arbennig gofio ystod a lefel y gwaith sy'n cael ei wneud gan ddisgyblion yn ogystal â'u hoedran cronolegol.
Rhaid i'r pennaeth sicrhau bod gwybodaeth ar gael i rieni ac eraill am amserau dechrau a gorffen sesiynau'r ysgol. Mae'r amserau ar gyfer Ysgol Cybi fel a ganlyn:

| | **Dysgu Sylfaen Derbyn** | **Dysgu Sylfaen Blynyddoedd 1 a 2** | **Blynyddoedd 3 a 4** | **Blynyddoedd 5 a 6** |
|---|---|---|---|---|
| | 9.00am-10.15am<br>10.30am-11.50am<br>12:45pm-3.00pm | 9:00am – 10:35am<br>10:50am – 11:50am<br>12:45pm – 3:00pm | 9:00am – 10:35am<br>10:50am – 11:55am<br>12:50pm – 3:05pm | 9.00am-10.15am<br>10.30am-11:55am<br>12:50pm – 3:05pm |
| Y cyfanswm o amser a dreulir yn yr ysgol bob wythnos | 360 munud y dydd<br>1800 munud yr wythnos<br>30 awr yr wythnos | 360 munud y dydd<br>1800 munud yr wythnos<br>30 awr yr wythnos | 365 munud y dydd<br>1825 munud yr wythnos<br>30 awr 25 munud yr wythnos | 365 munud y dydd<br>1825 munud yr wythnos<br>30 awr 25 munud yr wythnos |
| Cofrestru | 5 munud y dydd<br>25 munud yr wythnos | 5 munud y dydd<br>25 munud yr wythnos | 5 munud y dydd<br>25 munud yr wythnos | 5 munud y dydd<br>25 munud yr wythnos |
| Addoli | Llun – 5 munud<br>Mawrth – 10 munud<br>Mercher – 10 munud<br>Iau – 10 munud<br>Gwener – 5 munud | | | |
| Yr amser a dreulir yn addysgu | 23awr a 5 munud yr wythnos | | 23 awr 30 munud yr wythnos | |

**Rolau a chyfrifoldebau llywodraethwyr**

Bydd y corff llywodraethu yn sicrhau, os bydd newidiadau'n cael eu hystyried i'r diwrnod ysgol, y bydd yr ysgol yn dilyn y weithdrefn ar gyfer newid amserau sesiynau ysgol gan gorff llywodraethu fel y nodir yn Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru):
Bydd y pennaeth yn ymgynghori'n llawn â'r staff, y rhieni, y disgyblion a'r ALl i sicrhau:

- y paratoir datganiad sy'n nodi'r newid arfaethedig ac, os yw'n ofynnol gan yr ALl
- darparu copi o'r datganiad i bob rhiant a sicrhau bod copïau ar gael i'w harchwilio yn yr ysgol;
- galw cyfarfod, os bydd rhieni'n gofyn iddynt drafod y newid arfaethedig;
- ystyried unrhyw sylwadau a wnaed a phenderfynu a ddylid gweithredu'r newid arfaethedig, gydag unrhyw addasiad neu hebddo;
- rhoi gwybod i'r ALl a'r rhieni am unrhyw newid cyn iddo ddod i rym.

Ceir rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru yma.

DRAFT